

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Hosbis Marie Curie (Oedolion)
Dyddiad y gweithgarwch: 19 Ionawr 2021
Dyddiad cyhoeddi: 25 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Hosbis Marie Curie (Oedolion) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â dirprwy gyfarwyddwr cyflenwi gwasanaethau'r hosbis yng Nghymru, y nyrs arwain a'r rheolwr nyrsio cleifion mewnol ar 19 Ionawr 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- A yw'r amgylchedd yn ddiogel i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr?
- A gaiff y risg o haint ei hasesu a'i rheoli i gadw'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff yn ddiogel?
- A yw'r trefniadau rheoli staff yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar ac adolygiadau o ddigwyddiadau. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Nodwyd bod y gwasanaeth wedi ymateb yn brydlon i bandemig COVID-19. Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth a chynnal trafodaethau â'r staff a oedd yn adlewyrchu'r ffaith bod amgylchedd yr hosbis wedi cael ei wneud mor ddiogel â phosibl i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr.

Soniwyd wrthym am nifer o newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn helpu i ddiogelu'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr rhag y risg o drosglwyddo COVID-19. Mae mynediad i'r hosbis yn gyfyngedig, a dim ond staff allweddol hanfodol sy'n gweithio yn yr amgylchedd, gyda'r holl staff nad ydynt yn hanfodol yn gweithio gartref. Gwnaethom adolygu dogfen asesiad risg yr hosbis ar gyfer gweithle sy'n ddiogel rhag COVID-19 a nododd y prosesau a'r mesurau sydd ar waith ym mhob ardal o'r hosbis. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr gydag arwyddion cadw pellter cymdeithasol yn cael eu harddangos mewn ardaloedd allweddol, sicrhau bod gel diheintio dwylo a weips glanhau ar gael, a phosteri ar y drysau yn dangos uchafswm capasiti ystafelloedd unigol, sut i ddefnyddio PPE yn briodol a gweithdrefnau glanhau gwell yn yr hosbis.

Roedd mwy o ddogfennau ar gael gan gynnwys polisiâu ac asesiadau risg i ymwelwyr, gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld a chontractwyr hanfodol sy'n dod i mewn i'r hosbis. Gwnaethom drafod yr heriau a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19 pan osodwyd cyfyngiadau cenedlaethol ar ymwelwyr mewn lleoliadau gofal iechyd. Dywedwyd wrthym fod y trefniadau i berthnasau'r cleifion neu unigolion eraill o bwys ymweld â'r hosbis yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ac yn unol â'r broses bontio o un cam o'r pandemig i'r cam nesaf. Ar hyn o bryd, dim ond i'r cleifion hynny sydd yn nyddiau neu oriau olaf eu bywydau, neu'r cleifion y caiff eu gofal ei arwain gan yr Adnodd Penderfyniadau Gofal¹ y caniateir ymweliadau. Dywedwyd wrthym fod modd i'r cleifion gael hyd at ddau ymwelydd enwebedig. Os mai aelodau o wahanol aelwydydd ydynt ac nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, mae'n rhaid iddynt ymweld ar wahân. Fodd bynnag, os ydynt yn dod o'r un aelwyd, cânt ymweld ar yr un pryd. Mae cyflogai clinigol yn cwrdd â phob ymwelydd yn y dderbynfa, a chaiff asesiad risg ei gwblhau wrth iddynt ddod i mewn i'r adeilad gan gynnwys cofnodi eu tymheredd. Dangosir i'r ymwelwyr sut i wisgo a diosg² cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir, a dywedir wrthynt am sicrhau y byddant yn gwisgo eu PPE yn ystod yr ymweliad. Cânt eu tywys i ystafell y claf

¹ Model gofal yw'r canllawiau Penderfyniadau Gofal, sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu, cysur a gofal tosturiol i'r claf a'r bobl sy'n bwysig iddo lle bynnag y bo'n bosibl.

² Gwisgo a diosg yw'r broses o wisgo neu dynnu cyfarpar diogelu personol oddi arnoch

lle mae angen iddynt aros nes byddant yn barod i adael. Mae prosesau tebyg ar waith pan fydd ymwelwyr yn gadael yr hosbis.

Dywedwyd wrthym fod urddas y cleifion yn cael ei gynnal bob amser, gyda llety ar wahân i ddynion a menywod a wardiau sy'n ystyriol o ddementia. Esboniwyd wrthym y gall yr hosbis dderbyn 28 o gleifion mewnol cyn y pandemig. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol i 14 o gleifion mewnol, gan fod ardaloedd y cilfannau â nifer o welyau wedi cael eu had-drefnu i letya un claf yn unig ym mhob ardal. Roedd hyn yn golygu bod cyfleusterau ystafell ymolchi ar wahân ar gael i bob claf. Dywedwyd wrthym hefyd fod llai o atgyfeiriadau cymunedol wedi cael eu gwneud i'r hosbis ers dechrau pandemig COVID-19, a bod mwy o gleifion yn cael gofal gartref o ganlyniad i'r ofnau ynghylch trosglwyddo COVID-19 a'r cyfyngiadau ar ymweld sydd ar waith yn yr hosbis. Esboniwyd wrthym, er bod llai o alw yn yr hosbis, y bu cynnydd sylweddol yn y gofal a ddarperir gan y tîm gofal lliniarol cymunedol i gleifion yn eu cartrefi eu hunain. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y cleifion a gaiff eu derbyn i'r hosbis ag anghenion gofal diwedd oes mwy cymhleth, gan fod cleifion yn aros yn eu cartrefi gyhyd â phosibl.

Dywedwyd wrthym fod dwy ystafell yn yr hosbis a oedd ar gael i roi cyfleusterau llety i ymwelwyr aros dros nos Ni chaiff yr ystafelloedd hyn eu defnyddio ar hyn o bryd, ac mae'r ymwelwyr yn aros yn ystafell y claf i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod ymweliadau rhithwir yn cael eu hannog, a bod y rhan fwyaf o'r cleifion yn gallu defnyddio eu dyfeisiau electronig eu hunain. Mae'r hosbis wedi prynu mwy o ddyfeisiau, ac mae staff cymorth ar gael i helpu'r cleifion i wneud galwadau ffôn a galwadau fideo i'w hanwyliaid. Dywedwyd wrthym hefyd fod tîm cymorth yr hosbis yn cysylltu â'r teuluoedd yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gyflwr y cleifion, a bod y teuluoedd yn cael eu hannog i ffonio'r hosbis i gael gwybodaeth pryd bynnag y bo angen. Yn ogystal, rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr meddygol y cleifion i'r teuluoedd drwy gyswllt rhithwir neu drwy alwadau ffôn neu fideo gan aelod o dîm meddygol yr hosbis.

Esboniwyd wrthym fod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu wrth iddynt gael eu derbyn i'r hosbis. Mae tîm cymorth i gleifion a theuluoedd ar gael i ddarparu cymorth emosiynol, a chaiff y cleifion eu gweld gan aelod o'r tîm meddygol bob dydd. Mae staff yr hosbis wedi cynhyrchu fideo i gyflwyno gwahanol aelodau o'r tîm staffio a rhoi taith rithwir o amgylch yr hosbis i aelodau o'r teuluoedd er mwyn rhoi cyfle iddynt feithrin dealltwriaeth o'r bobl sy'n gofalu am eu hanwyliaid. Mae cymorth ysbrydol ar gael i'r cleifion yn rhithwir; fodd bynnag, weithiau mae angen i arweinydd ysbrydol fod yn bresennol yn bersonol, a chynhelir asesiad risg unigol ar gyfer pob achos.

Dywedwyd wrthym fod ardaloedd gorffwys ychwanegol wedi cael eu nodi yn yr hosbis i roi cyfle i'r staff gymryd saib i ddiosg eu masgiau a chael lluniaeth. Anogir y staff i gymryd saib yn rheolaidd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Wrth edrych ar yr archwiliadau, y polisiau a'r gweithdrefnau a gyflwynwyd, a siarad â'r staff, gwelsom fod y risg o haint wedi'i hasesu a'i rheoli i gadw'r staff, y cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o Archwiliad blynyddol o Systemau Iechyd a Diogelwch a Chydymffurfiaeth a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi cael gradd pum seren, ac felly cynhelir yr archwiliad eto ym mis Gorffennaf 2021. Yn ogystal, dywedwyd wrthym y cynhelir Archwiliad Ansawdd Mewnol ym mis Chwefror 2021, ar ffurf ddiwygiedig sy'n gyson â'r cyfyngiadau sydd ar waith o ganlyniad i COVID-19, a fydd yn canolbwyntio ar ddulliau rhithwir o asesu nes y bydd modd cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb. Mae'r ddogfennaeth yn adlewyrchu'r dull gweithredu newydd, gan geisio cyfuno hunanasesu, asesu gan gymheiriaid a chydweithio, gyda phwyslais ar ddysgu ar draws y sefydliad.

Cynhelir archwiliadau o hylendid dwylo a defnyddio PPE, ac roedd y data diweddar yn dangos cyfraddau cydymffurfio uchel. Dywedwyd wrthym hefyd am raglen flynyddol o archwiliadau atal a rheoli heintiau gan gynnwys gweithdrefnau aseptig, cathetrau sefydlog a chadw tŷ. Cawsom wybod bod amserlenni glanhau dyddiol yn cael eu cwblhau a bod rhaglen o archwiliadau glanhau misol ar waith. Nodwyd gennym fod yr archwiliad glanhau ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2020 hefyd yn dangos cyfraddau cydymffurfio uchel. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod cylch archwilio blynyddol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff, clefyd y llengfilwyr, diogelwch bwyd a dihalogi dillad a gaiff eu golchi.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn orfodol ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio gyda chleifion wyneb yn wyneb yn ogystal â'r holl staff anghlinigol, a gwelsom gyfraddau cydymffurfio o 97% ar gyfer staff clinigol a 100% ar gyfer staff anghlinigol. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr hosbis yn cael cymorth gan nyrs cyswllt atal a rheoli heintiau sydd wedi rhoi cymorth ychwanegol parhaus i'r staff yn ogystal â hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant ar wisgo a diosg PPE a masgiau FFP3³. Caiff canlyniadau archwiliadau atal a rheoli heintiau eu harddangos yn yr hosbis er budd ymwybyddiaeth y staff.

Dywedwyd wrthym fod yr hosbis wedi cynnal lefelau da o PPE priodol i'w defnyddio yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Mae system rheoli ar gyfer cynnal stociau ar waith gan yr hosbis i reoli cyflenwadau PPE. Mae manau casglu PPE ar gael yn yr hosbis i sicrhau bod modd i'r staff a'r ymwelwyr gael gafael ar PPE yn gyflym ac yn hawdd.

³Mae masg anadlu FFP3 yn amddiffyn rhag gronynnau megis llwch a gwahanol feirysau yn yr aer

Esboniwyd wrthym fod y staff yn cael profion COVID-19 bob wythnos a'i bod yn ofynnol i unrhyw aelod o'r staff sy'n dangos symptomau fynd adref a hunanynysu. Dywedwyd wrthym hefyd am y rhaglen frechu i staff rheng flaen. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael y brechiad ac mae gweddill y staff wedi gwneud trefniadau i'w gael.

Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn yr hosbis ar gyfer rheoli cleifion a all fod â COVID-19. Dywedwyd wrthym fod asesiad risg yn cael ei gynnal ar bob claf sy'n cael ei dderbyn i'r hosbis. Roedd y dogfennau'n dangos, yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau, bod yr hosbis yn pennu pob claf yn glaf risg uchel wrth ei dderbyn. Ar ôl cyfnod ynysu o 14 diwrnod, ac os bydd y claf yn parhau heb symptomau, newidir ei statws i glaf risg canolog. Fodd bynnag, bydd yr angen i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol yn aros yr un peth. Bernir bod unrhyw glaf y mae angen Gweithdrefn sy'n Cynhyrchu Aerosol⁴ arno yn glaf risg uchel, ac mae'r staff yn sicrhau y caiff PPE cywir ei ddefnyddio er mwyn cynnal y weithdrefn. Cawsom wybod bod polisi Gweithdrefn sy'n Cynhyrchu Aerosol ar waith gan yr hosbis. Gwnaeth y staff hefyd esbonio inni'r prosesau sydd ar waith i ofalu am y cleifion sy'n cael canlyniad prawf COVID-19 positif a'u trin er mwyn atal trosglwyddo'r feirws.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod Cynllun Parhad Busnes Marie Curie⁵ wedi cael ei roi ar waith ar ddechrau pandemig COVID-19. Cyflwynwyd nifer o fesurau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r staff yn amserol, a'u bod yn ymwybodol o'r dirwedd sy'n newid yn gyflym. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys dechrau cynnal cyfarfodydd COVID-19 bob dydd a phob wythnos, cynnal sgrymiau adrannol bob dydd, cynnal cyfarfodydd canolog ynghylch pandemig COVID-19 ddwywaith yr wythnos a phroses holi ac ateb i'r staff drwy grŵp e-bost canolog Marie Curie. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu drwy e-bost gan un o uwch-reolwyr yr hosbis

⁴ Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol, a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o gyfrwng heintus a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

⁵ Mae cynlluniau parhad busnes yn nodi sut mae unrhyw sefydliad yn ymateb i fygythiadau i'w gweithrediadau arferol.

i bob aelod o'r staff.

Dywedwyd wrthym fod canllawiau GIG Cymru ar COVID-19 ac atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn, yn ogystal â chanllawiau sy'n benodol i Marie Curie. Roedd modd i'r nyrs â chyfrifoldeb yn yr hosbis ddefnyddio gyriant canolog i gael gwybodaeth a chanllawiau cyfredol am ganllawiau a chynghor COVID-19. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd o'r nyrsys arwain yn cael eu cynnal bob pythefnos a bod cyfarfodydd o reolwyr yr hosbis yn cael eu cynnal bob mis. Caiff bwletin canolog wythnosol ei gynhyrchu i holl staff Marie Curie hefyd.

Dywedwyd wrthym fod yr hosbis yn sicrhau lefelau staffio diogel drwy ddefnyddio eu hadnodd Genie Establishment ac adnodd aciwtedd staffio. Cadarnhaodd y staff fod gan yr hosbis lefelau isel o absenoldebau staff a swyddi gwag a ddangoswyd gan y data a ddarparwyd. Roedd trafodaethau mewn perthynas â niferoedd staffio, swyddi gwag, trosiant staff, arfarniadau salwch a risgiau a mesurau lliniaru hefyd yn mynd rhagddynt yn ystod cyfarfodydd llywodraethu. Dywedwyd wrthym hefyd fod polisiau ar waith gan yr hosbis i gefnogi'r rheolwyr a'r staff gan gynnwys polisiau ar recriwtio, cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac absenoldeb astudio.

Esboniwyd wrthym fod nifer o fentrau ar waith i gefnogi llesiant y staff. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi bod yn fwy pryderus ar ddechrau'r pandemig, a bod uwch-aelod o'r tîm yn gweithio ar benwythnosau i roi cymorth lle bo angen. Mae cymorth ar gael gan dîm iechyd galwedigaethol Marie Curia a gall aelodau o'r staff hefyd gyfeirio eu hunain at y rhaglen cymorth i gyflogeion. Yn ogystal, mae cymorth ar gael drwy gynlluniau gweithredu adfer llesiant (WRAP)⁶ a chynlluniau iechyd personol. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr hosbis wedi hyrwyddo Rowndiau Schwartz⁷, sef sesiynau cymorth myfyriol i staff. Yn dilyn trafodaethau, cawsom wybod bod yr uwch-reolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, a bod yr holl staff yn yr hosbis wedi gwneud ymdrech i gydweithio'n agos fel tîm. Dywedwyd wrthym fod unigolyn cyfrifol yr hosbis mewn cysylltiad ag arweinwyr yr hosbis yn rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu manteisio ar oruchwylio clinigol drwy sesiynau goruchwylio ffurfiol.

Gwelsom dystiolaeth bod canrannau uchel o'r staff yn cydymffurfio mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol a statudol i staff, gan gynnwys hyfforddiant ar reoli meddyginiaethau, amrywiaeth a chydaddoldeb ac iechyd a diogelwch. Dywedwyd wrthym fod gwefan dysgu a datblygu ar gael i'r staff i'w galluogi i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant, yn ogystal â chynllun hyfforddiant blynyddol y cytunwyd arno ar gyfer y staff. Gwnaethom ofyn am gael gweld data ar gyfraddau cwblhau Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) blynyddol y staff a gwelsom gyfraddau cwblhau o 93.62%. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad gan gynnwys eu hamcanion, ac eithrio aelodau o'r staff sy'n absennol o'r gwaith ar hyn o bryd ar absenoldeb hanfodol.

Dywedwyd wrthym fod prosesau ar waith i sicrhau y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau andwyol a chamgymeriadau a fu bron â digwydd yn yr hosbis drwy eu cronfa ddata electronig,

⁶ Proses atal ac iachusrwydd a lunir gan yr unigolyn ei hun yw'r Cynllun Gweithredu Adfer Iachusrwydd, y gall unrhyw un ei ddefnyddio er mwyn gwella, aros yn iach, a sicrhau bywyd sy'n gweddu iddo.

⁷ Fforwm ymarfer myfyriol grŵp sy'n rhoi cyfle i staff o bob ddisgyblaeth fyfyrion ar yr agweddau emosiynol o'u gwaith.

sef Sentinel. Mae polisïau a gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith gan yr hosbis hefyd gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â digwyddiadau difrifol, rheoli digwyddiadau a'r rhyddid i godi llais. Dywedwyd wrthym fod y staff yn mynd ati i gofnodi digwyddiadau ar y system pan fo'n briodol. Mae'r rheolwyr yn trafod digwyddiadau'n wythnosol i sicrhau y caiff cynlluniau gweithredu eu datblygu a'u terfynu. Dywedwyd wrthym am y prosesau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol a chwynion cymhleth yn ogystal â'r prosesau ar gyfer rhoi adborth a dysgu i aelodau unigol o'r staff. Dywedwyd wrthym y caiff unrhyw ddysgu ehangach ei rannu â'r staff.

Esboniwyd wrthym fod adborth y cleifion a'r teuluoedd yn cael ei gasglu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gwelsom dystiolaeth o adborth a gasglwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020. Roedd y data'n dangos bod 97.56% o'r ymatebion yn y ddau gategori uchaf, sef da iawn a da. Gwnaethom hefyd ddarllen sylwadau gan y cleifion a'u hanwyliaid a oedd yn adlewyrchu pa mor gadarnhaol oedd y gofal, y tosturi a'r cymorth a roddwyd gan staff yr hosbis.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.